Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Tryweryn
# Frongoch
# Y Bala
# Gwynedd
# LL23 7NT

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2015**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Fron Goch sydd oddeutu ddwy filltir o dref Y Bala yng Ngwynedd.  Mae 49 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Maent wedi'u trefnu'n dri dosbarth oed cymysg.

Mae bron pob disgybl o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf.  Nid oes yr un disgybl sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.  Mae gan 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn yn uwch na'r ganran genedlaethol.  Nid oes yr un disgybl â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig.  Nid oes yr un disgybl sydd yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Tryweryn yn 2014-2015 yw £4,071.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £2,961.  Mae Ysgol Bro Tryweryn yn safle 45 o'r 97 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 1990.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod yr hydref 2008.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
| --- | --- |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau llythrennedd a rhifedd yn dda trwy'r ysgol;
- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- y flaenoriaeth uchel a roddir ar wrando ar lais y disgybl yn nodwedd ragorol;
- cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn gyson uchel;
- ystod eang o ddulliau addysgu'n sicrhau ymglymiad disgyblion i'w dysgu;
- strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi'u gwreiddio'n gadarn trwy'r ysgol;
- profiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion o'r holl ystod oedran a gallu; a'r
- ysgol yn darparu amgylchedd cynhwysol sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- arweinyddiaeth flaengar y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol;
- aelodau staff yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n arbennig o effeithiol;
- y pennaeth wedi hybu cydweithio a rhannu arfer dda gyda nifer sylweddol o ysgolion eraill;
- gallu'r corff llywodraethol i herio data perfformiad yr ysgol ynghyd â chyfraniad arwyddocaol y cyngor ysgol i'r trefniadau hunanarfarnu, yn nodweddion rhagorol;
- hunanarfarnu wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth;
- partneriaethau rhagorol gyda'r rhieni, gymuned ac ysgolion eraill; a'r
- ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Cynyddu'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y deilliant a'r lefelau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod ansawdd cyflwyniad gwaith a llawysgrifen yn gyson dda ar draws yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl yn rhoi o'u gorau mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n ddiwyd ar dasgau, yn canolbwyntio'n dda ac yn effro i holi a gofyn cwestiynau. Mae disgyblion o bob oedran yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn ei gymhwyso yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd newydd. Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn defnyddio eu medrau meddwl yn fedrus iawn wrth gydgynllunio a datrys problemau ymarferol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau maent yn eu cyflawni.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn meddu ar y medrau llythrennedd a rhifedd y mae eu hangen arnynt i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan. Mae safonau'n dda.

Mae bron pob un yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud yn ystod sesiynau torfol, maent yn siarad yn eglur ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus. Mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau gyda'r rhan fwyaf yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae gwaith ysgrifennu bron bob disgybl yn dangos cynnydd da erbyn diwedd y cyfnod. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol gan amrywio eu brawddegau a defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig wrth gofnodi eu profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm. Er hynny, nid yw ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn gyson dda.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cyfrannu'n feddylgar mewn trafodaethau grŵp a dosbarth gan ddefnyddio iaith lafar raenus. Maent yn ddarllenwyr hyderus a phybyr ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Trwy'r cyfnod allweddol, mae llawer o'r disgyblion yn fedrus iawn wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o lyfrau cyfeirio Saesneg i gefnogi eu gwaith yn y Gymraeg. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n fedrus at nifer o ddibenion yn y ddwy iaith ac yn arddangos rhugldeb a chywirdeb cynyddol mewn sillafu a mynegiant. Erbyn Blwyddyn 4, mae bron pob un yn defnyddio cymariaethau ac amrediad eang o ansoddeiriau ar gyfer cyfoethogi eu gwaith. Er bod llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy, nid yw'r safon yn gyson ar draws y cyfnod allweddol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen afael sicr ar ffeithiau rhif ac maent yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gymharu maint gwahanol esgidiau glaw. Ar draws yr ystod gallu, mae llawer o ddisgyblion yn egluro'r prosesau y maent wedi'u dilyn er mwyn cyrraedd yr ateb cywir neu wrth ddod i gasgliad. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio'r termau mathemategol cywir wrth drafod eu gwaith, er enghraifft wrth ymchwilio i faint o amser mae siwrnai benodol yn ei gymryd. Mae bron pob disgybl yn medru casglu a chynrychioli data mewn tasgau rhif ac yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i ddefnyddio ffeithiau rhif ac i wneud cyfrifiadau yn y pen yn dda. Erbyn blynyddoedd 5 a 6, mae bron pob un yn ymdrin â rhifau pum digid a chanrannau'n hyderus, er enghraifft wrth gofnodi a chymharu ffeithiau rhifol ynghylch Ynys Enlli. Mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd ar gyfer datrys problemau ymarferol, yn gadarn. Er enghraifft, wrth iddynt ymchwilio faint o amser mae gwahanol hylifau yn cymryd i rewi, mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn casglu amrediad o ddata o nifer o ffynonellau ac yna'n ei gyflwyno'n fedrus ar ffurf tablau a graffiau.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg, roedd cyfran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd deilliant 5 yn y tair blynedd diwethaf yn y 25% uchaf mewn llythrennedd a mathemateg. Roedd y gyfran a gyflawnodd deilliant 6 dros y cyfnod yn y 50% uwch mewn llythrennedd ond, gan amlaf, yn y 50% is mewn mathemateg.

Yn ystod tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd perfformiad yn 2014 ar lefel 4 yn y 25% uchaf mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth ond yn y 25% isaf mewn mathemateg.

Roedd perfformiad ar lefel 5 yn y pedwar pwnc ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 a 2012, gan amlaf, yn y 25% uwch o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, roedd perfformiad 2013 a 2014 yn amlach na pheidio yn y 50% isaf.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod Allweddol 2, mae merched a bechgyn yn cyflawni cystal â'i gilydd.

**Lles: Rhagorol**

Dywed pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 eu bod yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol a'u bod yn rhydd oddi wrth unrhyw aflonyddwch gan ddisgyblion eraill. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u datblygiad.

Mae pob disgybl yn ymddwyn mewn modd cyfrifol ac yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Maent yn weithgar a brwdfrydig, yn cydweithio'n gytûn a diwyd dros gyfnodau estynedig ac yn wynebu heriau newydd yn hyderus.

Wrth iddynt aeddfedu, mae'r holl ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau, er enghraifft y cyngor ysgol a'r grwpiau eco a byw'n iach, yn frwdfrydig. Mae gan y cyngor rôl weithredol ym mywyd yr ysgol ac mae'r aelodau'n ymateb yn hyderus i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu a gwneud penderfyniadau; er enghraifft wrth iddynt drefnu bore coffi a phenderfynu pa gemau i'w cynnal yn y ffair aeaf.

Mae'r cyfraniad y disgyblion at yr hyn maent yn ei ddysgu a sut, ynghyd â'u gallu i wneud dewisiadau ynghylch bywyd a gwaith yr ysgol, yn nodwedd ragorol. Maent yn cyfrannu'n flynyddol i gyfeiriad strategol yr ysgol ac yn cymryd rôl weithredol ym mhenodiadau staff. Maent hefyd yn penderfynu eu hunain pa elusennau i gyfrannu tuag atynt yn ystod y flwyddyn addysgol ac yn adrodd ar lafar ac yn ysgrifenedig i rieni a llywodraethwyr yn rheolaidd.

Gwna disgyblion yr ysgol gyfraniad allweddol i weithgareddau’r gymuned leol. Maent yn cefnogi achosion da ac elusennau lleol yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn eisteddfodau a chlybiau chwaraeon yr ardal.

Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae cyfraddau presenoldeb dros y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gynllunio wythnosol a thymhorol trylwyr, mae’r ysgol yn llwyddo i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu sy’n ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion o’r holl ystod oedran a gallu. Mae’r profiadau hyn yn ymdrin â gofynion y Cyfnod Sylfaen a’r Cwricwlwm Cenedlaethol yn llawn ac yn adeiladu’n systematig ar brofiadau dysgu a medrau presennol disgyblion.

Mae’r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol wedi ei ymgorffori’n gadarn yng nghynlluniau gwaith pob dosbarth. Mae’r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws holl feysydd y cwricwlwm yn fanwl ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu’n ddysgwyr annibynnol.

Mae dealltwriaeth disgyblion o’r dimensiwn Cymreig yn cael ei meithrin yn bwrpasol drwy brofiadau diddorol sy’n manteisio’n sylweddol ar ddiwylliant ac adnoddau’r ardal leol. Enghreifftiau da o hyn yw’r profiadau ysgogol a gafodd y disgyblion i gydweithio gyda bardd ac artistiaid lleol ar brosiectau penodol, megis creu murlun cerameg.

Mae’r cwricwlwm, ynghyd â phrofiadau dydd-y-ddydd disgyblion yn yr ysgol, yn rhoi lle amlwg i ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fydd eang. Trwy weithgarwch y cyngor eco, mae’r ysgol sicrhau bod disgyblion yn cyfrannu’n uniongyrchol at weithredu’n gynaliadwy, ailgylchu gwastraff ac arbed ynni. Mae gweithgareddau megis cefnogi elusennau a gweithgareddau dyngarol ynghyd â’r cysylltiadau gydag ysgolion yn Ghana a Phatagonia, yn cyfrannu’n sylweddol tuag at godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gyfoes ac maent yn cynllunio’n drwyadl ac yn pennu amcanion clir ar gyfer y profiadau dysgu. Maent yn llwyddo i gyflwyno amrediad eang o weithgareddau sy’n ysgogi diddordeb disgyblion ac yn sicrhau bod ganddynt rôl weithredol yn eu dysgu. Ar draws y dosbarthiadau, caiff tasgau eu gwahaniaethu’n briodol er mwyn galluogi pob unigolyn i gyflawni o fewn ei oedran a’i allu. Mae ymyrraeth bwrpasol a holi medrus athrawon a chymorthyddion, yn llwyddo i annog disgyblion o’r holl ystod oedran a gallu i ymdrechu’n galed ac i wneud cynnydd yn eu dysgu.

Mae’r holl staff yn darparu cyfleoedd da ar gyfer datblygu medrau disgyblion ac yn rhoi pwyslais cryf ar eu hyrwyddo’n ddysgwyr annibynnol. Maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu a threfniadaeth dosbarth, er enghraifft gwaith grŵp, parau neu ddosbarth cyfan, er mwyn sicrhau ymglymiad disgyblion i’r dasg dan sylw.

Mae trefniadau asesu a chofnodi'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn galluogi athrawon i fonitro ac olrhain cynnydd pob disgybl yn rheolaidd. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gryfder amlwg ac wedi'u gwreiddio'n gadarn yn nulliau addysgu ac asesu'r ysgol. Mae'r cyfleoedd cyson a gaiff disgyblion o bob oedran i arfarnu gwaith eu hunain ynghyd â gwaith eu cyfoedion a phennu targedau personol, yn gwella eu medrau dysgu yn sylweddol.

Ar draws yr ysgol, mae gwybodaeth asesu yn cael ei defnyddio'n fedrus gan athrawon ar gyfer nodi'r camau nesaf mewn dysgu.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am ddatblygiad a chynnydd eu plant. Mae'r cyfleoedd a gaiff disgyblion a'u rhieni i gyfrannu i gynnwys adroddiadau yn gryfder.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r flaenoriaeth uchel a roddir gan yr ysgol i les a diogelwch disgyblion yn creu cymuned gynhwysol. Mae'r staff yn llwyddo i greu amgylchedd gofalgar sy'n ymateb yn gadarnhaol i anghenion addysgol a phersonol pob disgybl. Mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol rheolaidd yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu lles a ffitrwydd yr holl ddisgyblion.

Mae sesiynau cydaddoli yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion. Mae'r cyfle rheolaidd a gaiff disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau cymdeithasol.

Mae'r defnydd a wna'r ysgol o arbenigeddau amrediad o asiantaethau a gwasanaethau cefnogol ac addysgol yr awdurdod lleol, yn ei galluogi i gefnogi lles a dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o athrawes arbenigol i ddatblygu iaith disgyblion mwy abl.

Mae trefniadau trylwyr ac effeithiol ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Trwy ymyrraeth gynnar a chynllunio gofalus, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth dda i'r disgyblion hyn. Mae hyn yn cynyddu eu hyder ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol ac addysgol. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol manwl sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd a'i rannu gyda'r rhieni.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff disgyblion hawl gyfartal i'r holl weithgareddau a drefnir ar eu cyfer. Mae'r pennaeth a'r staff yn meithrin ethos cadarnhaol a chyfeillgar ac mae hyn yn ei dro yn galluogi'r disgyblion i weithio'n hapus ac yn gydwybodol. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch, yn creu amgylchedd dysgu diogel a symbylol.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau perthnasol o ansawdd da sydd wedi'u gweddu'n briodol i’r holl ystod oedran a gallu. Manteisir yn llawn ar arbenigeddau aelodau o'r gymuned i ychwanegu at y ddarpariaeth yn y dosbarth, er enghraifft ar gyfer hyfforddi'r disgyblion mewn cerdd dant a phêl-droed.

Mae'r adeilad o ansawdd da. Mae’n ddigon diogel ac yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol gan ddisgyblion ac athrawon. Mae’r ardal y tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn adnodd gwerthfawr sy’n cael ei ddefnyddio’n effeithiol iawn gan staff er mwyn darparu profiadau diddorol a chyffrous i ddisgyblion.

Mae adeiladau a thiroedd yr ysgol o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio’n helaeth gan staff a disgyblion. Mae’r arddangosfeydd chwaethus o waith celf o gwmpas yr ysgol yn rhoi bri ar ymdrechion disgyblion ac yn cyfrannu’n arwyddocaol tuag at greu amgylchedd dysgu symbylol a diddorol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy’n cael eu rhannu’n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae’n dosrannu cyfrifoldebau’n effeithiol ac mae ganddi rôl allweddol mewn hybu cydweithio a rhannu arfer dda gyda nifer sylweddol o ysgolion eraill. Er enghraifft, mae athrawon eraill yn ymweld â dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn rheolaidd er mwyn arsylwi ar arferion da ac mae’r pennaeth wedi arwain tair ysgol arall er mwyn creu deunyddiau penodol ar gyfer cyrff llywodraethol. Mae’r rhain yn nodweddion ragorol sy’n cael effaith arwyddocaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar godi safonau disgyblion.

Mae pob aelod staff yn ymwybodol o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni’n arbennig o effeithiol. Maent yn cydweithio’n agos fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd. O dan arweiniad y pennaeth, maent yn barod iawn i rannu arbenigeddau ymysg ei gilydd yn ogystal â gydag athrawon ysgolion eraill yn yr awdurdod. Mae hon yn arfer ragorol sy’n hyrwyddo arferion addysgu a dysgu da yn effeithiol iawn.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dreiddgar o gryfderau'r ysgol ac o’r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae’r cynllun arloesol maent wedi’i fabwysiadu yn ddiweddar, wedi’u galluogi i arsylwi addysgu yn fwy systematig ac i ddod i farn sicrhach ynghylch safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn dda i sicrhau cyfeiriad strategol cadarn i’r ysgol yn ogystal ag i gyfrannu’n fwy effeithiol at y broses o lunio adroddiad hunanarfarnu, gosod targedau a chreu cynllun datblygu ysgol effeithiol. Caiff eu rôl fel cyfaill beirniadol i’r ysgol ei gyflawni’n effeithiol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae prosesau hunanarfarnu yn drylwyr ac yn tynnu ar wybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae’r rhain yn cynnwys data perfformiad disgyblion, arfarniadau monitro trylwyr o safonau ac ansawdd yr addysgu a’r dysgu, barn y rhieni a rhanddeiliaid eraill ac adolygiadau tymhorol gan asiantaethau allanol.

Mae gallu'r corff llywodraethol i herio data perfformiad yr ysgol ynghyd â chyfraniad arwyddocaol y cyngor ysgol i'r trefniadau hunanarfarnu, yn nodweddion rhagorol. Maent yn sicrhau bod gan yr holl arweinwyr ymwybyddiaeth drylwyr o gryfderau ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r broses hunanarfarnu yn bwrpasol ar gyfer pennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r cynllun datblygu yn gynhwysfawr ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol ac mae ynddo feini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd. Gall yr ysgol ddangos bod hunanarfarnu wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth, er enghraifft mewn Cymraeg a rhifedd.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol o ansawdd da ac yn cyfleu darlun cywir o gryfderau'r ysgol, ynghyd â'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau ac yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae perthynas gref a hynod o gynhyrchiol gyda'r rhieni. Mae'r rhieni yn cyfrannu cyllid sylweddol i'r ysgol sy'n cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer darparu adnoddau ychwanegol ac ehangu profiadau disgyblion. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn barod iawn i gynnig cymorth i ddisgyblion a staff. Er enghraifft, mae nifer ohonynt yn cynnal hyfforddiant chwaraeon i'r disgyblion ac yn rhoi cefnogaeth gref i ddigwyddiadau megis cyngherddau a gweithgareddau'r Urdd.

Mae'r cydweithio rhagorol sydd wedi bod rhwng yr ysgol a fferm leol yn ddiweddar wedi esgor ar brofiadau dysgu hynod o gyffrous i ddisgyblion. Bu'r cyfle a gawsant i baratoi, gofalu ac arddangos anifail yn y Ffair Aeaf ar faes y Sioe Frenhinol yn fan cychwyn arbennig o ysgogol i amrediad eang o waith trawsgwricwlaidd.

Mae gan yr ysgol berthynas lwyddiannus gyda'r cylch meithrin. Mae'r trefniant ar gyfer integreiddio'r disgyblion ddau brynhawn yr wythnos yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd, ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio pwrpasol ar gyfer disgyblion.

Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd i safoni a chymedroli gwaith. Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 2.

Mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau cydweithio rhagorol gydag ysgolion eraill sydd yn arwain at welliannau yn safonau gwaith disgyblion ac yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn hynod o effeithiol. Mae'r cydweithio hwn wedi bod yn greiddiol i ddatblygu strategaethau newydd mewn ysgrifennu ar draws yr ysgol yn ogystal â mireinio'r cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn ehangu a chyfoethogi profiadau dysgu yn sylweddol. Mae creu'r ysgol goedwig yn ddiweddar wedi deffro ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd gwarchod yr amgylchfyd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus er mwyn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, i weithio ar y cyd ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth dda i athrawon trwy gydweithio ar gynlluniau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant. Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae effaith adnoddau dysgu yn cael ei harfarnu'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion ac yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu medrau'r disgyblion.

Nodwedd gref yw blaengaredd yr ysgol mewn nifer o rwydweithiau dysgu sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i ysgolion gydweithio ac i staff ddatblygu eu medrau proffesiynol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella medrau iaith a rhifedd disgyblion, yn ogystal â datblygu rôl a chyfrifoldebau llywodraethwyr.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ystyried deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612214 - Ysgol Bro Tryweryn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 44 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 6 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 6 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 83.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 6 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 66.7 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 6 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612214 - Ysgol Bro Tryweryn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 44 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 7 | * | * | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | * | * | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 57.1 | * | * | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 57.1 | * | * | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | * | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.9 | * | * | 14.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | * | * | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 57.1 | * | * | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 26 | 25<br>96% | 1<br>4% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 26 | 24<br>92% | 2<br>8% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 27 | 20<br>74% | 7<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 27 | 21<br>78% | 6<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 27 | 23<br>85% | 4<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 27 | 20<br>74% | 7<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 27 | 20<br>74% | 7<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 27 | 20<br>74% | 7<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 26 | 20<br>77% | 6<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 27 | 16<br>59% | 10<br>37% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 27 | 18<br>67% | 7<br>26% | 1<br>4% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 27 | 22<br>81% | 5<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 27 | 20<br>74% | 7<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 26 | 17<br>65% | 8<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 27 | 18<br>67% | 9<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 27 | 18 | 8 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 67% | 30% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 27 | 16 | 10 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 59% | 37% | 4% | 0% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 26 | 17 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 27 | 17 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 63% | 33% | 4% | 0% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 27 | 22 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 27 | 21 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 78% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| William Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Derfel Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jano Owen | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.